**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 17 Tachwedd 2020 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M C Child | E W Fitzgerald |
| D W Helliwell | P K Jones | W G Lewis |
| G J Tanner | W G Thomas | T M White |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | S M Jones | J W Jones |

**Hefyd yn Bresennol**
Y Cynghorydd Rob Stewart Arweinydd/Aelod Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley ac L R Jones

---

## 4 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 6 Cofnodion.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo Cofnodion Pwyllgorau'r Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 15 Medi 2020 ac 1 Hydref 2020 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 7 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau cyhoeddus.

## 8 Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Mark Child a June Burtonshaw i Bwyllgor y Rhaglen Graffu. Croesawodd hefyd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor, y Cynghorydd Susan Jones fel Cynullydd Panel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion ac aelod cyfetholedig Pwyllgor y Rhaglen Graffu.

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Craffu yr adroddiad ar 'Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu'

**Penderfynwyd** ar y canlynol:
1) Cytuno ar gyfethol cynullwyr y Panel Perfformiad Craffu i'r Pwyllgor; a
2) Chytuno i gyfethol sefydliadau partner i alluogi cynrychiolwyr i gymryd rhan yng ngwaith y Pwyllgor i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 9 Diweddariad ar Gynllunio Ymateb ac Adfer COVID-19

Roedd yr Arweinydd/Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Lleoedd yn bresennol er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ymateb y cyngor i bandemig COVID-19 a chynllunio adferiad.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at rai diweddariadau a oedd yn cynnwys: -

- Effaith yr ail don
- Cefnogi busnesau drwy'r cyfnod atal byr
- Datblygiadau o frechlynnau a pharatoi ar gyfer cyflwyno brechiad torfol
- Rheoli mewnfudo o Denmarc yn dilyn mwtaniad COVID-19 mewn mincod
- Effaith ac adnoddau ar gyfer Profi, Olrhain a Diogelu
- Materion ychwanegol ar wahân i COVID-19 yn herio'r cyngor, gan gynnwys y tywydd a llifogydd
- Monitro lles staff
- Monitro'r angen am yr ysbyty maes
- Cymorth i Ganol y Ddinas
- Cynnydd prosiect adfywio Cam 1 Abertawe Ganolog

Roedd cwestiynau a thrafodaethau gyda'r Arweinydd a'r Swyddogion yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cynnydd gwybodaeth/sgwrs ar frechiadau a meysydd blaenoriaeth
- Yr effaith ar staff pe bai angen yr ysbyty maes

- Graddfa'r bobl sy'n cyrraedd o Denmarc – cysylltwyd ag achosion hysbys ac fe’u cynghorwyd i hunanynysu
- Sefyllfa manwerthwyr mawr yn Abertawe
- Y tri cham (ailddechrau, newid ffocws ac ail-lunio) ac amserlenni'r Cynllun Adfer
- Eglurhad o'r cam ail-lunio – Adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol, y Cynllun Cyfalaf a'r Gweithlu
- Strategaeth Trawsnewid 2022 – 2026 – Cynnwys deddfwriaeth bellach e.e. Deddf yr Amgylchedd yn ogystal â Brexit – manylion pellach i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu
- Effeithiau posib Brexit

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd a'r Swyddogion.

**Penderfynwyd** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn ysgrifennu at yr Arweinydd, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y Pwyllgor.

## 10 Rhaglen Waith Craffu 2020/22.

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Craffu adroddiad ar Raglen Waith Craffu 2020/22 i'w ystyried a thynnodd sylw at y canlynol: -

- Papurau o'r Gynhadledd Cynllunio Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2020, a amlinellir yn Atodiad 1 o'r adroddiad;
- Crynodeb o'r pynciau a awgrymwyd yn Atodiad 2 o'r adroddiad; a
- Amlinellir Rhaglen Graffu drafft 2020/22 yn Atodiad 3 o'r adroddiad.

Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth ar y Rhaglen Waith ddrafft a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Pynciau sy'n cyd-fynd â'r Blaenoriaethau Corfforaethol gan ganolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder.
- Symud oddi wrth Sesiynau Holi ac Ateb arferol gydag Aelodau'r Cabinet i ganiatáu amser ar gyfer materion amserol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor
- Ailddechrau'r Panel Ymchwiliad Caffael
- Caiff gwaith craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu yn hytrach na phanel perfformiad ar wahân
- Newid amlder Paneli Perfformiad Oedolion, Plant a Theuluoedd a'r Amgylchedd Naturiol
- Cynigwyd gweithgorau ar gyfer y Gweithlu, Cynhwysiant Digidol, Gwasanaethau Bysus a Dinas Iach
- Hyblygrwydd i edrych ar faterion sy'n codi drwy gydol y flwyddyn

Darparwyd cynlluniau gwaith y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgorau Datblygu Polisi er mwyn helpu i nodi ac osgoi dyblygu gwaith.

Tynnwyd sylw hefyd at effaith COVID-19 fel ystyriaeth ar adnoddau a gweithgarwch craffu, a gallai effeithio ar gyflawni'r rhaglen waith.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Cytuno ar y Rhaglen Waith Graffu ddrafft ar gyfer 2020/22.
2) Cytuno ar gynllun gwaith arfaethedig y Pwyllgor

## 11 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Aelodaeth o Baneli Craffu a Gweithgorau'.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Ychwanegu'r Cynghorydd Peter Black at y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid;
2) Ychwanegu'r Cynghorydd Mike Day at Banel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
3) Caiff y Cynghorydd Peter Jones ei dynnu oddi ar Banel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd;
4) Caiff y Cynghorwyr Peter Black a Peter Jones eu tynnu oddi ar Banel Craffu Perfformiad Gwasanaethau i Oedolion;
5) Caiff y Cynghorydd Louise Gibbard ei thynnu oddi ar unrhyw Baneli a Gweithgorau; a
6) Nodi Cynullwyr y Panel Perfformiad fel a ganlyn:

| **Panel Perfformiad** | **Cynullydd** |
|---|---|
| Gwasanaethau i Oedolion | Y Cynghorydd Susan Jones (newydd ei phenodi) |
| Addysg | Y Cynghorydd Lyndon Jones (wedi'i ail-benodi) |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Y Cynghorydd Paxton Hood-Williams (wedi'i ail-benodi) |
| Datblygiad ac Adfywio | Y Cynghorydd Jeff Jones (wedi'i ail-benodi) |
| Gwella Gwasanaethau a Chyllid | Y Cynghorydd Chris Holley (wedi'i ail-benodi) |
| Amgylchedd Naturiol (trefnwyd cyfarfod ar gyfer 14 Rhagfyr) | i'w gadarnhau (y Cynghorydd Peter Jones ar hyn o bryd) |

## 12 Llythyrau craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad ar 'Lythyrau Craffu' er gwybodaeth.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 13 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y Panel/Gweithgor sydd ar y gweill.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 15 Rhagfyr yn canolbwyntio ar:

- Craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

- Craffu cyn penderfynu ar adroddiad a chaiff ei gyflwyno i'r Cabinet ar 17 Rhagfyr ynghylch y Prydlesu Arfaethedig i Gyngor Cymunedol y Mwmbwls dan y Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol, sy'n ymwneud â datblygiad arfaethedig Parc Sglefrio newydd gan y Cyngor Cymuned.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.10 pm

**Cadeirydd**